

# ASTUDIAETH ACHOS

ENW: CHRISTIAN DAVIES

TEITL SWYDD: TECHNEGydd PEIRIANNEG AML SGIL

CYFLOGWR: GRŴP BWYD FINSBURY/MEMORY  
LANE CAKES CAERDYDD

CYMWYSTERAU: BTEC LEFEL 3 MEWN GWEITHGYNHYRCHU A  
GWEITHREDOEDD A CHYNNAL A CHADW / NVQ LEFEL 3 MEWN  
PEIRIANNEG DRYDANOL / HNC MEWN OFFERYNIAETH A RHEOLI  
/ HND MEWN PEIRIANNEG DRYDANOL AC ELECTRONIG / BSC AR  
HYN O BRYD MEWN PEIRIANNEG DRYDANOL AC ELECTRONIG

## BETH MAE TECHNEGydd PEIRIANNEG AML SGIL YN EI WNEUD?

Mae technegydd peirianneg aml sgil yn gwneud gwaith cynnal a chadw drwy'r ffatri gyfan, yn ymateb i alwadau pan fydd rhywbeth yn torri ac hefyd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeiladau. Gallwn fod yn gwneud unrhyw beth o waith trydanol, mecanyddol, weldio neu beirianwaith.

## DISGRIFIWCH EICH SWYDD MEWN 20-25 O EIRIAU

Yn fy swydd rwy'n gwneud gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar amrywiol beiriannau, rhewgelloedd a phoptai sy'n cynnwys gwaith mecanyddol a thrydanol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod peiriannau'r ffatri'n perfformio ar eu gorau a bod y cyfarpar yn cael eu cynnal i'r safon orau bosibl. Gall hyn fod yn anodd am fod y safon un 24/7 ac felly dydy llinellau cynhyrchu ddim yn stopio'n hir. Dw i'n gweithio mewn tîm sy'n ymateb i alwadau am gymorth pan fydd offer yn torri gynted ag y bydd y broblem yn codi; drwy ymateb a thrwsio problem yn gyflym gallwn arbed gwastraffu arian.

## AR ÔL I CHI GYMHWYSO, A GYMERODD HI LAWER O AMSER I CHI GANFOD SWYDD?

Y peth da am wneud prentisiaeth yw eich bod yn ennill cyflog wrth ddysgu ac rydych bron gant y cant yn sicr o gael swydd ar ôl cwblhau eich prentisiaeth.

## BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am fy swydd yw ei bod hi'n heriol ac mae rhywbeth gwahanol i'w wneud drwy'r amser.

## BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

Fy nghyflog cychwynnol oedd £12,000 ond mae wedi cynyddu drwy gydol y brentisiaeth.

gyrfaeodd  
**BLASUS**

mewn bwyd a diod

CYMRU

Y peth da am wneud prentisiaeth yw eich bod yn ennill cyflog wrth ddysgu ac rydych bron gant y cant yn sicr o gael swydd ar ôl cwblhau eich prentisiaeth.



PEIRIANNEG

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK